

## **Cwmpas y Staff Practis a gwmpesir gan Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol**

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeulustod Clinigol) (Cymru) 2019 yn gymwys i'r cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

Diben yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol yw indemnio staff practis cyffredinol mewn perthynas â hawliadau esgeulustod clinigol sy'n ymwneud â gweithgareddau a ddarperir o dan Wasanaethau Meddygol Sylfaenol. Diffinnir hyn fel gwasanaethau iechyd a ddarperir o dan contract, trefniant neu gytundeb a wnaed o dan neu yn rhinwedd yr adrannau canlynol o Ddeddf GIG Cymru 2006:

- (a) adran 41(2) (gwasanaethau meddygol sylfaenol);
  - (b) adran 42(1) (contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol);
  - (c) adran 50 (trefniadau gan Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol).
- Mae'r cynllun yn berthnasol i bob aelod o staff practis sy'n gweithio mewn cysylltiad â darparu swyddogaeth berthnasol. Diffinnir "swyddogaeth berthnasol" fel:
- (a) trefnu darparu gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd;
  - (b) darparu gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd;
  - (c) arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd;
  - (d) darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol;
  - (e) arfer pwerau o dan, neu yn rhinwedd, adran 7 o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988;
  - (f) arfer pwerau o dan adran 169 o'r Ddeddf, neu baragraffau 19 ac 20 o Atodlen 3 iddi;

Byddai hyn, er enghraifft, yn cynnwys derbynnydd heb unrhyw hyfforddiant meddygol ar yr amod bod y derbynnydd yn gweithio mewn cysylltiad â darparu o leiaf un o'r swyddogaethau perthnasol a nodir yn (a) - (f) uchod.

Mae'n ofynnol i feddygon teulu locwm gofrestru ar Gofrestr Locwm Cymru Gyfan er mwyn cael mynediad i'r cynllun.